

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn  
Neuadd Bentref Brithdir  
Nos Fawrth, Hydref 20, 2015 am 7:30 o'r gloch.**

**Preseanol** Cynghorwyr: Rhun Prys Jones (Cadeirydd), Mordaf Roberts, Meurig Ashton a Gerallt Griffith. Hefyd Henry M. Edwards.

**1. Croeso'r Cadeirydd**

Croesawyd pawb oedd yn bresennol.

**2. Ymddiheuriadau:** Peredur Jenkins, Huw A. Evans, Emlyn Roberts, Llion Rh. Williams a Geraint Evans.

**3. Datgan diddordeb.**

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

**4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Medi 15, 2015**

Wedi cywiro sillafiad 'Maescambrian' i 'Cambren' (Eitem 10,c.v.) cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

**5. Materion yn codi o'r cofnodion Medi 15, 2015**

Eitem 10.c.vi. Llythyr ateb (18/9/2015) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod ni ffydd y ffordd yn cael ei chynnwys o fewn y cylchdeithiau prif lwybrau, ond mi ffydd y ffordd yn cael sylw fel mae ysgolion, ysbytai ayyb yn cael. Hwyrach bydd bin halen yn cael ei roi wrth gyffordd A494. Mae bin halen wrth Aran Hall.

Eitem 10.a. Roedd Peredur Jenkins, Huw Evans ac Emlyn Roberts yn bresennol yn y cyfarfod. Bydd cyfarfod nesaf ar ddydd Llun, Ionawr 11, 2016 am 7:00yh yn Neuadd Bentref Brithdir.

Eitem 10.b. Llythyr ateb (23 Medi 2015) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod:

- i. bydd Arolygwr yn asesu'r sefyllfa ynglŷn ag tocio coed ar ochr ffordd am hyd o ganllath o Bryn yr Aur, Bontnewydd.
- ii. mae'r cais ynglŷn ag angen arwyddion wrth Ffatri Laeth Rhydymain ar ffordd A494 i rybuddio gyrwyr i arafu wedi ei drosglwyddo i Llywodraeth Cymru.
- iii. bydd bocs graeanu newydd yn cael ei roi ar dop rhiw Stesion, Drwsynant.
- iiii. mae'r cais ynglŷn â cheir yn parcio ar ochr ffordd A494 wrth gwt BT wrth Troedyrhiw, Rhydymain wedi ei roi i'r Cynulliad.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION HYDREF 20, 2015

v. bydd Arolygwr yn cael golwg o'r llwybr Cambren i Troedyrhiw, Rhydymain.

**6. Gohebiaeth**

a. Llythyr (18/9/2015) oddi wrth Uned Eiddo Corfforaethol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd safle toiledau cyhoeddus Rhydymain yn cael ei roi ar y farchnad agored yn y dyfodol agos.

b. Llythyr (Medi 2015) oddi wrth Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

c. Llythyr (23/9/2015) oddi wrth Gwasanaethau Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am estyniad o chwe mis ychwanegol i orchymyn sydd yn gwahardd defnydd dros dro llwybrau troed cyhoeddus o gyffordd ffordd yn Llanfachreth i Dolfrwynog. Mae'r gorchymyn i glirio coed yn dilyn difrod storm yn 2014.

ch. Llythyr (24/9/2015) oddi wrth Swyddfa Archwilio Cymru, Caerdydd yn rhoi gwybod Archwilydd Cyffredinol Cymru bydd ein harchwilydd statudol. BDO LLP fydd yr archwilydd penodedig ar ran yr Archwilydd Cyffredinol ac yn gyfrifol am archwilio ein Ffurflen Flynyddol ar gyfer 2015-2016 ac ymlaen. Mae swyddfa BDO yn Southampton (mae swyddfa hefyd yn Llanelwy).

d. Llythyr (23 Medi, 2015) oddi wrth Oedolion, Iechyd a Llesiant, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am ail strwytho'r Gwasanaeth Cofrestru yn Nwyfor a Meirionnydd. Bydd y strwythuro newydd yn cael ei chyflwyno Hydref 5, 2015. Bydd oriau agor swyddfeydd cofrestru Dolgellau a Phwllheli rhwng 10:00 a 12:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener. Ni fydd gorsafoedd yn Bala, Porthmadog a Thywyn.

dd. Llythyr (30/09/2015) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am orchymyn gwaharddiad trafndiaeth am 3 mis o Hydref 7, 2015 i osod cyfarpar BT ar hyd y ffordd ger Capel Siloh, Llanfachreth. Mae disgwyl cwblhau'r gwaith o fewn 10 diwrnod.

e. Llythyr (30/9/2015) oddi wrth Adran Rheoleiddio, Cyngor Gwynedd. Amgáu mae copi o gais am drwydded eiddo gan Afon Rhaiadr Ltd, Afon Rhaiadr Country House, Rhaiadr Wnion, Dolgellau. Os mae sylwadau ar y cais maent eu hangen erbyn 23/10/2015.

f. Llythyr (6/10/2015) oddi wrth Un Llais Cymru gyda chopi o gyflwyniad Annwen Davies, Rheolwr Cyswllt Mentrau Cymdeithasol, Cyngor Gwynedd yn eu cyfarfod ar Fedi 23 yn Bafiliwn Criced, Dolgellau.

Rhodddwyd copi o'r cyflwyniad i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION HYDREF 20, 2015

ff. Llythyr (5 Hydref, 2015) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd ynglŷn â biniau halen yn y gymuned. Maent yn rhoi gwybod ni fydd y Cyngor yn llenwi, ailgyflenwi a chynnal a chadw'r biniau ar ôl gaeaf 2015/16. Er mwyn i ni gadw'r biniau mae'r Cyngor yn cynnig inni gymryd drosodd y cyfrifoldeb amdanynt o Ebrill 1, 2016 ymlaen. Yr amcan gyfri o'r gost o lenwi bin halen unigol a chost o'i ailgyflenwi yn ystod y gaeaf ac ar ein cais yw £156.00. Amgáu mae rhestr o finiau halen sydd yn y gymuned (13 bin sydd). Os mae angen biniau ychwanegol, a bydd eu lleoliad yn addas i'r Cyngor, bydd amcangyfrif y gost o ddarparu bin halen newydd, wedi ei osod a'i gyflenwi a halen, yn £281.00.

Mae'r Cyngor eisiau gwybod beth yw ein bwriad o ran y ddarpariaeth i gwrdd ein gofyn.

g. Llythyr (12/10/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gwrs Cyfarfod y Cyngor (Saesneg) yn Theatr y Ddraig, Abermaw ar ddydd Mawrth, Hydref 20 am 6:30yh. Y gost fydd £45 y person.

h. Llythyr (15/10/2015) oddi wrth Y Groes Goch Brydeinig. Maent eisiau cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

i. Llythyr (13/10/2015) oddi wrth Rhwydwaith Busnes Gwynedd yn rhoi gwybod maent yn ymdrechu i wrthwynebu bwriad Cyngor Gwynedd i gau eu hadrannau sy'n cefnogi twristiaeth a busnesau oherwydd niwed gwneith i economi'r sir.

j. Llythyr (17/10/2015) oddi wrth Pwyllgor Neuadd Rhydymain. Maent eisiau gwair sy'n tyfu ar lwybr rhwng cefn y neuadd a wal y cae cael ei dorri. Hefyd, cael bin baw cŵn ar ochr y llwybr Mae angen hefyd gwagio'r biniau sydd yn y lle parcio wrth y Neuadd.

Penderfynwyd rhoi gwybod iddynt:

- i. Cyfrifoldeb perchennog y tir yw torri gwair y llwybr.
- ii. bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i Warden Cŵn Cyngor Gwynedd am lanast mae cŵn yn gwneud ar y llwybr.
- iii. bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i Cyngor Gwynedd am wagio'r biniau.

## **7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Ceisiadau cynllunio:

- i. NP5/54/19B. Creu mynediad newydd i gerbydau. Hengae, Llanfachreth.

Penderfynwyd cefnogi'r cais. (5/10/2015)

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION HYDREF 20, 2015

ii. NP5/54/243E. Uwchraddio gorsaf telathrebu presennol. Safle CTIL 121285, Fronalchen, Dolgellau.

Penderfynwyd cefnogi'r cais. (26/9/2015)

ii. NP5/54/267F. Uwchraddio gorsaf telathrebu presennol. Safle CTIL 123886, Brith Fryniau, Rhydymain.

Penderfynwyd cefnogi'r cais. (26/9/2015)

iii. NP5/54/386A. Ailwampio strwythurol yn cynnwys gosod cladin allanol. 1 Hengaer, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

iiii. NP5/54/387A. Ailwampio strwythurol yn cynnwys gosod cladin allanol. 4 Hengaer, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais

b. Llythyr (Medi 29, 2015). Mae'r Awdurdod yn gwahodd cynghorau tref a chymuned i gyfarfod ynglŷn â phrosiectau, polisïau a rhaglenni'r Awdurdod. Bydd y cyfarfod lleol yn Coed y Brenin ar ddydd Llun, Tachwedd 16 am 6:00-9:00yh.

## **8. Materion Ariannol**

a. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Medi, 2015: £1,135.25.

b. Balans yn y banc ar 29 Medi, 2015: £9,112.76.

c. Bil (20/10/15) am £1,053.00 oddi wrth A.M. Ashton am dorri tyfiant a chlirio canghennau ar lwybrau cyhoeddus y gymuned (£980), clirio gordyfiant o amgylch llochesau bws Drwsynant, Rhydymain a Bontnewydd (£42), a pheintio hysbysfwrdd Llanfachreth (£31).

Penderfynwyd talu'r bil.

## **9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins**

Nid oedd adroddiad.

**10. Unrhyw fater arall**

a. Erthygl yn 'Newyddion' Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am gyfle i ddweud eich barn yn gyfarfodydd Her Gwynedd yn Ysgol y Gader ar Hydref 7 am 6:45yh (Fforwm Cyhoeddus) ac yn Llyfrgell Rydd ar Tachwedd 10 am 11:00yb i 1:00yp (Sesiwn galw heibio). Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhannau arall o'r sir.

Rhodddwyd i'r aelodau copi o adroddiad cwblhawyd gan Mr David Coleman ar lwybrau cyhoeddus Gwynedd.

b. Penderfynwyd rhoi gwybod i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri bod camfa sydd wedi torri wrth gorlannau y Rhobell Bwlch Goriwaered, Llanfachreth ac mae angen ei thrwsio.

-----

Llofnod:

Dyddiad: